

POLISI CLUDIANT

CARTREF I YSGOL/COLEG



Cyngor Caerdydd
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
Ystafell 301,
Neuadd y Sir,
Caerdydd
CF10 4UW

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available
in English.**

POLISI CLUDIANT CARTREF I YSGOL/COLEG CYNNWYS

- 1. Cefndir Cyfreithiol**
- 2. Dewis o Ysgol**
- 3. Disgyblion Meithrin**
- 4. Plant sy'n Derbyn Gofal**
- 5. Cyfeiriad Cartref**
- 6. Disgyblion yn Newid Cyfeiriad yn ystod Blwyddyn 10/11**
- 7. Ysgolion Newydd**
- 8. Cludiant Ôl 16**
- 9. Cyflyrau Meddygol**
- 10. Disgyblion â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**
- 11. Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol**
- 12. Hyd y Daith**
- 13. Llwybrau sydd ar gael**
- 14. Llwybrau nad ydynt ar gael**
- 15. Gwerthu seddi dros ben ar Fysus Cludo Teithwyr ar Gontract**
- 16. Mesur y Daith rhwng y Cartref a'r Ysgol**
- 17. Pàs Bws**
- 18. Hawl i Dynnu Cludiant yn Ôl**
- 19. Problemau Ymddygiadol**
- 20. Y Broses Gwyno**
- 21. Y Broses Apelio**

1. Cefndir Cyfreithiol

Mae dyletswydd ar Gyngor Caerdydd i gynnig cymorth teithio yn unol â Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008. Wrth benderfynu cynnig cymorth teithio am ddim ai peidio mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried:

- oed y plentyn,
- natur y llwybr,
- cais gan riant i'r plentyn dderbyn addysg mewn ysgol ffydd
- cais gan riant i'r plentyn dderbyn addysg Gymraeg
- anghenion dysgwyr ag anabledau neu anawsterau dysgu
- anghenion penodol dysgwyr sydd yn blant sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdod lleol.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a rhaid i'r Cyngor ystyried achos pob disgybl yn ôl ei rinweddau ei hun, gan ystyried unrhyw sylwadau a wneir.

Mae'r dulliau a ddefnyddir gan y Cyngor i weithredu'r ymrwymiad hwn wedi eu nodi yn y ddogfen bolisi. Mater i'r Cyngor yw pennu'r dull teithio rhwng y cartref a'r ysgol.

2. Dewis o Ysgol

Bydd pob cyfeiriad yng Nghaerdydd yn dod o fewn ardal ddalgylch:

- Ysgol Gymunedol Saesneg*
- Ysgol Gymunedol Gymraeg

Mae dalgylchoedd yn rhan o Drefniadau Derbyn y Cyngor y mae Cabinet y Cyngor yn cytuno arnynt bob blwyddyn cyn 15 Ebrill yn dilyn yr ymgynghoriad perthnasol. Gellir gweld y dalgylch a'r ysgolion agosaf ar wefan y Cyngor drwy roi cyfeiriad. Ar gyfer ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr (enwadol) neu Ysgolion Sefydledig, rhaid i rieni gysylltu â'r ysgolion yn uniongyrchol i wirio'r ysgol addas agosaf i'w cyfeiriad cartref. Mae'r Cyngor yn diffinio "ysgol addas agosaf" fel yr ysgol gymunedol Gymraeg, yr ysgol gymunedol Saesneg, yr ysgol Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru agosaf gan ddibynnu ar y math o ysgol mae rhieni wedi ei ddewis.

Gall rhieni fynegi dewis dros ysgol Gymraeg, Saesneg neu enwadol ar gyfer eu plentyn. Bydd y plentyn yn gymwys i dderbyn cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol am ddim i'w ysgol agosaf cyhyd â bod cyfeiriad y cartref yn fwy na'r pellter cerdded statudol o'r ysgol; (2 filltir ar gyfer ysgol gynradd a 3 milltir ar gyfer ysgol uwchradd Blwyddyn 7 -11). Ni fydd hawl gan rieni

**Heblaw am yr ardal o amgylch Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg*

sy'n dewis anfon eu plentyn i ysgol sy'n bellach o'u cyfeiriad na'r ysgol addas agosaf, dderbyn cymorth teithio am ddim, hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw y tu hwnt i'r pellter cerdded statudol.

Pan fo'r ysgol addas agosaf yn llawn a ddim yn gallu derbyn disgybl, darperir cymorth teithio am ddim i'r ysgol addas agosaf sydd â lle i dderbyn y plentyn, cyhyd â bod y cartref 2 filltir neu fwy i ffwrdd o'r ysgol addas agosaf i ddisgyblion cynradd, neu 3 milltir neu fwy i ddisgyblion uwchradd.

Os yw'r Cyngor yn ystyried nad yw'r ysgol agosaf yn addas ar sail asesiadau risg unigol, mae'n bosib y darperir cludiant. Mewn achosion lle mae'n rhaid i blentyn symud ysgol yn sgil bwllo, bydd cymorth teithio am ddim yn cael ei gynnig dim ond os yw'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLIA) neu Caerdydd yn Erbyn Bwllo (CEB) wedi bod yn ymwneud â'r achos ac wedi cynorthwyo gyda'r trosglwyddiad ysgol. Bydd angen i dîm/swyddog GLIA neu CEB gyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r cais am gludiant. Bydd disgyblion hefyd yn gorfod byw y tu hwnt i'r pellter cerdded cymwys o'u hysgol newydd.

3. **Disgyblion Meithrin**

Nid yw'r Cyngor yn darparu cymorth teithio am ddim i ddisgyblion Meithrin.

4. **Plant sy'n Derbyn Gofal**

Bydd plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod ac yn cael eu cyfarwyddo gan y Gwasanaeth Addysg i fynychu ysgol benodol yn gymwys i dderbyn cymorth teithio am ddim i'r ysgol honno hyd yn oed os nad hi yw'r ysgol addas agosaf. Rhaid i'r ysgol fod dros 2 filltir o bellter cerdded o'r cyfeiriad cartref yn achos Ysgol Gynradd, neu 3 milltir yn achos Ysgol Uwchradd.

5. **Cyfeiriad Cartref**

Caiff cymorth teithio am ddim ei ddarparu o/i breswylfa arferol disgybl (lle mae'r disgybl yn byw fel rheol).

Pan fo cyfrifoldeb wedi ei rannu gan rieni/gwarchodwyr am blentyn a bod y plentyn fel rheol yn byw mewn mwy nag un cyfeiriad, bydd y Cyngor yn darparu cymorth teithio am ddim i'r ddau gyfeiriad cartref, cyhyd â bod y ddau gyfeiriad wedi eu lleoli y tu hwnt i'r pellter cerdded cymwys angenrheidiol. Mewn achosion felly, cytunir ar batrwm sefydlog, fel rheol fesul hanner tymor, lle caiff y cyfeiriad cartref ei gadarnhau ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos. **Bydd angen tystiolaeth ddogfennol megis gorchymyn llys neu lythyron budd-dal plant hefyd i gefnogi'r defnydd o fwy nag un cyfeiriad.**

6. Disgyblion yn Newid Cyfeiriad yn ystod Blwyddyn 10/11

Bydd disgyblion sy'n astudio ar gyfer arholiadau TGAU ym mlwyddyn 10 neu 11 sy'n newid cyfeiriad ar ôl dechrau ar eu hastudiaethau ym mlwyddyn 10, yn gymwys i dderbyn cymorth teithio am ddim yn ôl disgrisiwn (o dan Adran 6 mesur teithio Dysgwyr (Cymru)) cyhyd â bod y cyfeiriad newydd dros 3 milltir o bellter cerdded o'u hysgol bresennol.

Dylid nodi:

- Rhaid i'r ysgol bresennol fod yr ysgol ddalgylch ar gyfer y cyfeiriad cartref blaenorol.
- Bydd angen prawf dogfennol o'r cyfeiriad newydd.
- Os yw'r cyfeiriad blaenorol y tu hwnt i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol bresennol, bydd mynychu'r ysgol yn cael ei gategoreiddio fel dewis y rhiant a bydd rhieni yn gyfrifol am unrhyw gostau cludiant i'r ysgol newydd.

Bydd hanes cyfeiriad cartref y disgybl yn cael ei wirio er mwyn sicrhau bod y cyfeiriad blaenorol yn dalgylch yr ysgol bresennol. Os yw'r cyfeiriadau blaenorol y tu allan i'r dalgylch, ni fydd cymorth teithio am ddim yn cael ei gynnis, waeth beth yw pellter y cyfeiriad newydd i'r ysgol.

Bydd disgyblion sy'n symud i gyfeiriad yng Nghymru y tu hwnt i ffiniau Sir Caerdydd yn gymwys i dderbyn cymorth teithio am ddim yn ôl disgrisiwn gan y Cyngor dan sylw (yn amodol ar gynnal y trefniadau presennol rhwng Cynghorau Cymru). Bydd hyn hefyd yn berthnasol i ddisgyblion sy'n symud i Gaerdydd o gyfeiriad mewn Sir arall yng Nghymru.

7. Ysgolion Newydd

Pan fo ysgol newydd yn agor mewn dalgylch sydd newydd ei ddiffinio, ni fydd cymorth teithio am ddim yn cael ei roi i'r plant hynny y mae eu rhieni yn dewis lle yn yr ysgol a arferai wasanaethu eu man preswyllo. Mae'r ysgol addas agosaf i ddisgybl yn ddibynnol ar oed y plentyn a'i gyfeiriad cartref adeg gwneud y cais.

8. Cludiant Ôl 16

Nid yw'r Cyngor yn cynnis cymorth teithio am ddim i unrhyw ddisgybl/myfyriwr dros 16 oed (oedran ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd dan sylw).

Yr unig eithriad i hyn yw yn achos disgyblion/myfyrwyr sydd â datganiad o anghenion addysgol sy'n nodi'n benodol bod yn rhaid i'r cymorth teithio barhau ar ôl i'r disgybl droi'n 16 oed.

9. Cyflyrau Meddygol

Fel y nodwyd uchod, rhaid i'r Cyngor ystyried anghenion dysgwyr wrth asesu'r angen am gludiant cartref i ysgol, gan gynnwys unrhyw ddysgwyr ag anableddau neu anawsterau dysgu. Fodd bynnag mae pob ysgol yn cynnig cymorth i ddisgyblion ag anableddau neu anawsterau dysgu ac felly dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y darperir cludiant, yn seiliedig ar dystiolaeth feddygol o anawsterau unigol penodol wrth deithio i'r ysgol. Mae'r Cyngor yn ystyried ei ymrwymadau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan gynnwys yr angen i wneud addasiadau rhesymol pan roddir cludiant i ddisgyblion.

10. Disgyblion â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Rhoddir cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n byw y tu hwnt i'r pellteroedd cerdded statudol o'u hysgol addas agosaf (2 filltir ar gyfer disgybl ysgol gynradd a 3 milltir ar gyfer disgybl ysgol uwchradd ym mlwyddyn 7-11) p'un a oes ganddynt ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ai peidio.

Ar gyfer disgyblion ag AAA, mae'r Cyngor yn defnyddio'r un meini prawf pellter ond yn defnyddio oed gwybyddol y plentyn wrth asesu'r pellter cymwys, yn seiliedig ar gyngor gan Seicolegydd Addysg.

Pennir yr ysgol addas agosaf gan y math o AAA a'r ysgol agosaf sydd ar gael a all gefnogi'r angen hwn. Er enghraifft os oes ysgol prif ffrwd wedi ei henwi yn natganiad AAA plentyn yna fe ystyrid y byddai unrhyw ysgol prif ffrwd yng Nghaerdydd yn addas. Fodd bynnag os oes gan blentyn ganolfan adnoddau arbenigol sydd ag arbenigedd penodol yn ei ddatganiad, dim ond ysgolion eraill â chanolfan adnoddau arbenigol o'r math hwn fydd yn cael eu hystyried yn addas. Yn yr un modd â chyda pob disgybl arall, os bydd rhieni yn dewis gyrru eu plant i ysgol nad yw'r ysgol addas agosaf, y rhieni sy'n gyfrifol am dalu unrhyw gostau trafnidiaeth yr eir iddynt. Dim ond os yw eu datganiad o AAA yn nodi'n benodol fod angen i'r cymorth teithio am ddim barhau ar ôl i'r disgybl gyrraedd 16 oed y darperir cymorth teithio am ddim i ddisgyblion AAA dros 16 oed.

Dim ond mewn amgylchiadau hynod eithriadol pan fod anghenion cludiant penodol gan ddisgybl y caiff cludiant ei gynnwys mewn datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

11. Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol

Bwriad Hyfforddiant Teithio Annibynnol yw cynyddu annibyniaeth ymhlith pobl ifanc ac fe'i cefnogir gan yr holl bartneriaid sydd yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n derbyn cymorth teithio am ddim gan y Cyngor. Mae

hyfforddwyr unigol yn helpu disgyblion i gyrchu eu darpariaeth addysg trwy hyfforddiant teithio annibynnol cyn cyrraedd eu hoed gadael ysgol.

Diben y rhaglen Hyfforddiant Teithio Annibynnol yw annog mwy o ddysgwyr ag AAA i deithio'n annibynnol i'w manau dysgu. Bydd hyn fel rheol yn golygu hyfforddi i annog a helpu dysgwyr ag AAA i deithio ar gludiant cyhoeddus, i gerdded neu i feicio. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi ymrwymo'n llawn i'r gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n cefnogi'r hyfforddiant hwn, sy'n cyfrannu at alluogi pobl ifanc i fyw bywydau llawnach. I'r perwyl hwn bydd y Tîm Cludiant Teithwyr, os yn briodol, yn asesu a yw disgybl yn barod ar gyfer Hyfforddiant Teithio Annibynnol. Os bydd disgybl yn cael ei ddewis i fynd ar gwrs hyfforddi bydd trefniadau cludiant yn parhau nes bo'r disgybl wedi hyfforddi a'i asesu yn llwyddiannus fel un a all deithio'n ddiogel ac yn annibynnol.

12. Hyd y Daith

Lle bo'n bosib, mae'r Cyngor yn dilyn Canllaw Gweithredol ar Deithio i Ddysgwyr a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu hyd siwrnai o ddim mwy na 60 munud i ddisgyblion ysgol uwchradd, a 45 munud i ddisgyblion ysgol gynradd. Ystyrir bod cerdded milltir i'r safle bws yn rhesymol.

13. Llwybrau sydd ar gael

Mae'r pellter cerdded wedi ei fesur yn ôl 'y llwybr byrraf sydd ar gael'. Ystyrir fod llwybr 'ar gael' os yw'n ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded ar hyd y llwybr ei hun neu gydag oedolyn os yw oed a lefel deall y disgybl yn galw am hynny.

Yn unol â Chanllaw Gweithredol Teithio i Ddysgwyr, asesir pob llwybr ar y rhagdybiaeth y bydd person cyfrifol yn mynd gyda'r disgyblion, ond mater i rieni yw penderfynu a oes angen goruchwyliaeth ar blentyn ai peidio ar y daith, a mater i'r rhieni/gofalwr yw trefnu hyn os na allant wneud hynny eu hunain.

14. Llwybrau nad ydynt ar gael

Mae'r Cyngor wedi nodi llwybrau penodol i sawl ysgol yn rhai 'nad ydynt ar gael' drwy eu pennu'n llwybrau cerdded "anniogel". Mae dynodi'r rhain yn ymrwymo'r Cyngor i ddarparu cymorth teithio cartref i ysgol am ddim lle nad oes llwybr amgen byrrach na'r pellteroedd uchod.

15. Gwerthu seddi dros ben ar Fysus Cludo Teithwyr ar Gontract

Pan fo seddi sbâr yn codi ar lwybr bysus a gontractir sy'n bodoli eisoes, gellir eu cynnig i'w gwerthu. Mae ffurflenni cais ar gael ar gais gan y Tîm Cludiant Teithwyr neu ar wefan y Cyngor. Os digwydd i nifer y ceisiadau fod yn uwch na'r nifer o seddi sbâr sydd ar gael ar lwybr penodol, caiff y flaenoriaeth ei rhoi i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 i 11 cyn rhoi ystyriaeth i geisiadau gan ddisgyblion o'r chweched dosbarth. Rhoddir y seddi ar sail pellter o gyfeiriad cartref y disgybl i'r ysgol, a rhoddir y flaenoriaeth i'r disgybl sy'n byw bellaf o'r ysgol.

Does dim gwarant y bydd y sedd sbâr yn parhau ar gael. Os yw nifer y disgyblion â ganddynt hawl i gludiant am ddim yn cynyddu, mae'n bosibl y bydd rhaid disodli disgyblion sydd wedi prynu seddi sbâr. Mewn amgylchiadau fel hyn gallai teuluoedd fod yn gymwys i gael ad-daliad cyhyd â bod y pàs bws wedi ei ddychwelyd i'r Cyngor. Cyfrifir unrhyw ad-daliad dyledus ar sail gyfrannol o'r dyddiad y derbyniwyd y pàs gan y Cyngor.

Caiff cost seddi sbâr ei hadolygu'n flynyddol ac mae'n daladwy yn dilyn derbyn anfoneb. Gall rhieni dalu yn llawn, neu fesul tymor neu fis. Caiff seddi eu gwerthu ar sail taith ddwy ffordd ac ni ellir eu gwerthu ar gyfer taith un ffordd, boed hynny i'r ysgol neu adref o'r ysgol. Mewn achosion pan nad yw ysgol wedi cyflwyno niferoedd terfynol ei disgyblion, mae'n bosibl na fydd modd i'r Cyngor ddyrannu seddi i ddisgyblion sy'n dymuno prynu lle nes hanner tymor yr hydref, gan fod rhaid rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n gymwys am gymorth teithio am ddim. Gall disgyblion sy'n colli eu pàs bws gael un arall gan y Tîm Cludiant Teithwyr am gost o £10.

16. Mesur y Daith rhwng y Cartref a'r Ysgol

Caiff y daith gerdded fyrraf ei mesur o ffin eiddo'r teulu i fynedfa agosaf safle'r ysgol yn unol â system fapio System Wybodaeth Ddaearyddol y Cyngor.

17. Pas Bws

Bydd pob disgybl prif ffrwd sy'n cael cymorth teithio am ddim yn derbyn pàs bws â llun adnabod arno wedi ei godio â lliw er mwyn teithio ar fws a gontractiwyd i'r ysgol, neu ar wasanaeth bws masnachol talu am docyn. Mewn achosion lle nad oes bws ysgol dynodedig, bydd y disgybl yn derbyn cerdyn IFF Bws Caerdydd.

Cyfarwyddir y disgyblion i gario eu pàs/cerdyn ar bob achlysur wrth deithio. I osgoi'r posibilrwydd o orlenwi, mae cwmnïau bysus a gyrwyr wedi eu cyfarwyddo i beidio â gadael i unrhyw ddisgybl deithio os nad oes ganddo'r pàs/cerdyn priodol (Dim Pàs Dim Teithio). Bydd swyddogion y

Cyngor yn cwblhau arolygon monitro cyson er mwyn sicrhau mai dim ond disgyblion cymwys sy'n cael eu cludo.

Caiff llefydd eu rhoi gan y Tîm Cludiant Teithwyr ar sail y llwybr gorau o gyfeiriad cartref y disgybl i'r ysgol. Bydd ceisiadau gan ddisgyblion i newid i lwybr arall yn cael eu trin ar sail y cyntaf i'r felin, ar yr amod bod digon o le ar gael. Gall disgyblion sy'n colli eu pàs bws gael un arall gan y Tîm Cludiant Teithwyr am gost o £10.

18. Hawl i Dynnu Cludiant yn Ôl

Os canfyddir maes o law bod cymorth teithio am ddim wedi ei roi ar gam, e.e. os mesurwyd yn anghywir, mae hawl gan y Cyngor i dynnu'r cludiant yn ôl ar ôl rhoi cyfnod rhybudd rhesymol (fel rheol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl canfod y camgymeriad).

Pan fo amgylchiadau wedi newid o ran mesur y llwybr yn ystod blwyddyn academaidd, e.e. yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth gludiant lle mae llwybrau cerdded newydd wedi cael eu darparu, mae hawl gan y Cyngor i dynnu cymorth teithio am ddim yn ôl ar ddiwedd y flwyddyn academaidd dan sylw.

Mewn achosion lle prynwyd pàs ar gyfer sedd sbâr nad yw ar gael mwyach, (er enghraifft pan fo angen y sedd ar ddisgybl sy'n gymwys i dderbyn cymorth teithio am ddim, bod y llwybr wedi newid neu bod y contract wedi ei ddirwyn i ben) bydd y pàs yn cael ei atal ar unwaith. Mewn achosion o'r fath gwneir ad-daliad priodol (gweler adran 15 uchod).

19. Problemau Ymddygiadol

Mae diogelwch pob disgybl yn ddibynnol ar y safon ymddygiad ar gludiant ysgol. Os bydd disgybl yn camymddwyn ar drafnidiaeth ysgol mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod y ddarpariaeth gludiant iddo. Bydd llythyrau rhybuddio yn cael eu hanfon at deuluoedd disgyblion sy'n camymddwyn, yn peri difrod i'r cerbyd, yn peri anaf i deithwyr eraill neu'n ymddwyn mewn modd y gallai beryglu diogelwch. Mae'n bosib y bydd yr hawl i deithio ar fws ysgol yn cael ei dynnu yn ôl dros dro neu yn barhaol yn dilyn proses a nodir yn y Canllaw Gweithredol ar Deithio i Ddysgwyr.

Mae'r Cyngor hefyd yn cadw'r hawl i un ai atal neu ganslo cludiant mewn achosion lle mae gyrwyr/hebryngwr wedi derbyn ymosodiad llafar neu gorfforol gan rieni/gwarcheidwaid. Mewn achosion o'r fath anogir y contractwyr dan sylw i adrodd am unrhyw weithredoedd wrth yr awdurdodau priodol.

Mae hawl gan rieni i gyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig i Gyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd o ran pam na ddylid tynnu'r cludiant yn ôl dros dro neu yn barhaol. Yn dilyn atal yr hawl i deithio ar gludiant ysgol, rhieni sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol. Cyn codi gwaharddiad dros dro rhaid cael sicrwydd o welliant mewn ymddygiad.

20. Y Broses Gwyno

Dim ond cwynion ysgrifenedig gan rieni yn ymwneud â gwasanaethau neu gerbydau fydd y Cyngor yn ymchwilio iddynt. Os caiff cwyn ei chadarnhau, cymerir camau priodol ac angenrheidiol os bydd angen gyda'r darparwr gwasanaeth ar frys, yn unol ag amodau'r contract sydd mewn grym ar y pryd.

21. Y Broses Apelio

Os yw rhiant yn credu nad yw'r Cyngor wedi gweithredu'r polisi yn gywir wrth wrthod cymorth cludiant am ddim i'w blentyn, gall herio'r penderfyniad gan ddefnyddio'r broses apêl ganlynol.

Mae tri cham i apelio.

Cam 1

Yn y lle cyntaf dylai rhieni gyflwyno eu cwyn ar bapur ynghyd â manylion apêl ac unrhyw ddogfennau tystiolaeth. Y rhieni fydd yn gyfrifol am gasglu'r dystiolaeth berthnasol. Dylid anfon yr apêl hon un ai trwy lythyr neu e-bost i'r Tîm Cludiant Teithwyr. Bydd cadarnhad o dderbyn yr apêl yn cael ei anfon at y rhiant o fewn 5 diwrnod gwaith a bydd ymateb ffurfiol yn cael ei anfon at y rhiant o fewn 30 diwrnod gwaith yn nodi unrhyw benderfyniad.

Cam 2

Os nad yw'r rhiant/gwarchodwr yn fodlon ar benderfyniad y Tîm Cludiant Teithwyr, gellir gwneud apêl ysgrifenedig i'r Gyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd. Bydd y rhiant yn cael cadarnhad bod yr ail apêl hon wedi dod i law o fewn 5 diwrnod gwaith. Bydd Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn cynnig ymateb ffurfiol o fewn 30 diwrnod gwaith. Bydd pob achos yn cael ei farnu ar sail ei rinweddau ei hun yn erbyn Polisi Cartref i Ysgol/Coleg y Cyngor.

Cam 3

Os bydd y cais yn cael ei wrthod gan y Gyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, mae un cyfle arall gan y

rhiant/gwarcheidwad i apelio. Rhaid cyflwyno'r apêl yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau Bydd rhieni yn cael cadarnhad bod yr apêl derfynol hon wedi dod i law o fewn 5 diwrnod gwaith a bydd dyddiad gwrandawriad yn cael ei bennu o fewn 30 diwrnod. Pwyllgor Apeliadau'r Cyngor fydd yn clywed yr achos. Mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig heb unrhyw gysylltiad â'r Tîm Cludiant Teithwyr. Bydd y Pwyllgor yn ystyried a yw'r Cyngor wedi gweithredu'r Polisi Cludiant Cartref i ysgol yn gywir. Mae'r penderfyniad a wneir yn derfynol ac yn rhwymol ar yr apelydd a'r Tîm Cludiant Teithwyr. Hysbysir rhieni o benderfyniad y pwyllgor o fewn 7 diwrnod ar ôl gwrandawriad yr apêl. Os caiff yr apêl ei gwrthod yna cynghorir y rhiant/gwarcheidwad nad oes hawl apelio ymhellach.